

From: [M. Ll. Davies](#)
To: [North Wales Wind Farm Connection](#)
Subject: Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru
Date: 01 September 2015 09:15:26

Yr Arolygydd Cynllunio
3/18 Eagle Wing
Temple Quay
2 The Square
Bristol
BS1 6PN
28ain Awst, 2015

Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru

Ymhellach i'm hamlinelliad cynt.

Rwyf yn gwrthwynebu cael gwifrau trydan ar Beilonau o Goedwig Clocaenog, Saron i'r de o Ffordd Glascoed, Cefn Meiriadog, Llanelwy LL17 i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol tros ben y tir ac nid o dan y tir. Fel y Cyngorydd Sir tros Gefn Meiriadog a Trefnant apeliaf i chwi warchod harddwch a thirlun godidog Dyffryn Elwy i'r Oesoedd a ddêl yn Dreftadaeth i'm plant a phlant fy mhiant.

1) Dylid daearu gwifrau sydd i'w gweld o Ddyffryn Elwy i'r De/Orllewin o Glan yr Afon, fyny'r ochr a nes ymlaen heibio i gefn y tŷ hynafol rhestredig "Berain" (cyn gartref Catrin o Ferain) . O'r Elwy i'r Gogledd/Ddwyrain, fynnu'r ochr heibio Coed y Fadir, heibio Plas Newydd a Phlas Hafod, heibio Coed Plas Newydd i ben Bryn Meiriadog yn gyfochrog a'r Lôn Werdd/Ceffyl lle dwedir ei fod i gael ei ddaearu lawr tua Fferm y Groesfordd ac i'r Is Orsaf y tu cefn i hen waith gwydr Pilkington, Lôn Cwttir. Bydd y llinell ar ben Bryn Meiriadog i'w gweld yn erbyn yr awyr, sydd yn hollol annerbyniol. Ceir rhai llinellau llai yn croesi'r caeau nawr, a bydd rhagor o rhai mwy yn hagrau'r tir.

2) Dylid daearu i gadw'r Tirlun hardd dilychwyn naturiol sydd yno ers canrifoedd. Dywedwyd gan Edward Pugh, 1763-1813, Arlunydd ac Awdur byd enwog o Ruthun, a luniodd wedi 9 mlynedd o waith, yn ymchwilio'n drwyadl tros Gymru, "Cambria Depicta" Yn y gorchestwaith hwnnw ceir ef yn datgan na cheir gwell man i Arlunydd weithio nag yn Nyffryn Elwy. Dywed " Ceir cymeriad y fan yn annhebygol i unrhyw beth sydd wedi disgyn i'm rhan; er nad yw yn cyfranogi o diroedd gwylltion Eryri, eto mae iddo ei ragoriaethau pa un bynnag, os ydw yn cael ei drin yn iawn, bydd mor hyfryd â llawer yno; ac er efallai ddim yn gyd gymharu â dyffrynnoedd Meirionydd, mae'n rhagori ar y manau tebyg mwyaf gwych a ddaeth i'm sylw yn Nhrefaldwyn." Gwelai yno na welai gwell man i Arlunydd weithio ei gampwaith nag yn Nyffryn Elwy.

3) Ceir hefyd gerllaw Plas Hafod tŷ hynafol Rhestredig Gradd II*, Plas Newydd a buasai'r gwifrau, gwaith dur a pholion ymwithiol a gynhigir yn sarnu tirlun sydd i'w weld gerllaw gosodiad hynafol Plas Newydd. Ceir hyn yn waeth eto ger Berain, cartref y nodedig Catrin o Ferain.

4) Sylwaf fod gwifrau trydanol presennol sydd yn croesi'r llinell a gynhigir i gael eu daearu a hefyd y llinell ochr Dyffryn Clwyd o Fryn Meiriadog i'r Is Orsaf, Lôn Cwttir, Llanelwy. Felly, Pam ddim tan ddaearu oll o'r llinell newydd.


5) Ceir disgrifiad clodwiw pen isaf Dyffryn Elwy gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys "Nodir terfynau'r dirwedd gynwysedig hwn gan geunant yr Afon Elwy wrth iddo amgylchynu Cefn Meiriadog esgair isel ar ymylon dwyreiniol Bryniau'r Rhos yng ngogledd Sir Ddinbych" Dyma ddisgrifiad campus o dirwedd hardd ddilychwyn naturiol Dyffryn Elwy mae'r cwmni Trydanol yn ceisio'i hagra a difwyno gyda pholion a phen dur i gludo'r Trydan o Glocaenog i Lôn Cwttir. Gelli'r eu gosod tan ddaear fel sydd yn rhaid gyda phibell Oel, Dŵr neu Nwy sydd yn croesi'r Plwy yn barod.

6) Ceir Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr oddi ar Abergele a Llandudno gyda cheblau wedi eu claddu o'r Môr i'r Is Orsaf i'r De o Derwendeg, Ffordd Glascoed ym Mhlwy Cefn Meiriadog. Ceir "Burbo Bank" ger ceg y Merswy, Cilgwri gyda cheblau wedi eu claddu o'r Môr gyda thrydan i Is Orsaf Newydd i'r De o Dŷ'n Caeau, Ffordd Glascoed sydd o gwmpas 400 llath o'i gilydd, oll tan y

ddaeear. Ni weli'r pam bod Cwmni SP Manweb yn gwrthod claddu ceblau pob cam o Glocaenog i Is Orsaf ger Lôn Cwttir yn yr un modd ar ddau Gwmni uchod. Gelli'r gosod pibell ychwanegol at ddefnydd y dyfodol, yn lle tros y ddaear lle bydd angen, petai pŵer y Melinau Gwynt yn codi, gelli'r gosod gwifrau newydd cryfach pob cam o un pen i'r llall yn y bibell wag.

7) Unwaith bydd y Peilonau a gynhigir, yn sarnu, difwyno a hagra'r olygfa hyfryd, naturiol dilychwin a phrydferth sydd gennym o ddyffryn gwych Elwy, a mannau eraill, ni fydd modd ei hadfer na chuddio'r camgymeriad gorffwyllog a wnaed trwy blygu i gyfalafwyr di enaid, a chaniatáu i'r cryf feddiannu'r tir sanctaidd sydd wedi ei roi i ni feidrolion ei warchod. Wrth eu gosod o dan wyneb y tir, bydd natur yn adfer y briw a'i ymgeleddu yn fuan iawn, a bydd y tywyrch yn dyner arnynt, ac ni fydd cof a golwg ohonynt fwy.

Gan fawr hyderu y bydd synnwyr cyffredin a chariad at Greadigaeth Duw yn cael goruchafiaeth tros elw dynol.



This email was scanned by the Government Secure Intranet anti-virus service supplied by Vodafone in partnership with Symantec. (CCTM Certificate Number 2009/09/0052.) In case of problems, please call your organisations IT Helpdesk. Communications via the GSi may be automatically logged, monitored and/or recorded for legal purposes.